

Datganiadau Ariannol
am y
Flwyddyn hyd at
31 Gorffennaf 2015

CYNNWYS

Tudalen

YMDDIRIEDOLWYR Y BRIFYSGOL.....	1
YMGYNGHORWYR PROFFESIYNOL	2
ADRODDIAD Y TRYSORYDD	3-8
RHEOLAETH GORFFORAETHOL	9-10
DATGANIAD BUDD CYHOEDDUS.....	11
CYFRIFOLDEBAU CYNGOR Y BRIFYSGOL.....	12
ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL	13-14
DATGANIAD O'R PRIF BOLISI'AU CYFRIFEG	15-18
CYFRIF INCWM A GWARIANT.....	19
COFNOD O'R GWEDDILL A'R DIFFYG YN ÔL Y GOST WREIDDIOL	19
Y FANTOLEN.....	20
DATGANIAD O'R ENILLION A'R COLLEDION CYDNABYDDEDIG	21
DATGANIAD LLIF ARIAN PAROD	22
NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL.....	23-41

YMDDIRIEDOLWYR Y BRIFYSGOL

Dyma Ymddiriedolwyr am y Brifysgol i'r flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2015, ac hyd cyfarfod y Cyngor lle y cymeradwywyd y datganiadau ariannol hyn yn ffurfiol:

Aelodau Annibynnol

Ex-officio

Syr Emyr Jones Parry, Canghellor a Chadeirydd y Cyngor (6/6)
Mrs Elizabeth France CBE, Dirprwy Ganghellor (6/6)
Miss Gwerfyl Pierce Jones, Dirprwy Ganghellor (6/6)
Dr Glyn Rowlands, Dirprwy Ganghellor (5/6)
Dr Timothy Brain OBE, Trysorydd (6/6)

Apwyntiwyd yn syth i'r Cyngor

Mr George Ashworth (o 01 Awst 2015)
Ms Anne Davies (5/6)
Mrs Janet Davies (4/6)
Mr Keith Evans (5/6)
Mr Richard John (4/6)
Yr Athro Wynne Jones OBE (tan 31 Gorffennaf 2015) (3/6)
Y Gwir Anrhydeddus Elfyn Llwyd (o 01 Awst 2015)
Mr Ian MacEachern OBE (6/6)
Dr Emyr Roberts (o 01 Awst 2015)
Yr Athro Gareth Roberts (tan 31 Gorffennaf 2015) (5/6)
Syr John Skehel (tan 31 Gorffennaf 2015) (2/6)

Aelodau Staff / Myfyrwyr

Ex-officio

Yr Athro April McMahon, Is-Ganghellor (6/6)
Ms Rebecca Davies, Dirprwy Is-Ganghellor (6/6)
Yr Athro John Grattan, Dirprwy Is-Ganghellor (4/6)
Dr Rhodri Llwyd Morgan, Dirprwy Is-Ganghellor (6/6)
Yr Athro Chris Thomas, Dirprwy Is-Ganghellor (5/6)

Aelodau o'r Senedd

Yr Athro Neil Glasser (5/6)
Dr Joseph Ironside (6/6)
Dr Jenny Mathers (o 30 Medi 2015)
Yr Athro David Trotter † (tan 24 Awst 2015) (2/2)

Aelod o'r Staff Anacademaidd

Mr Nigel Thomas (tan 30 Hydref 2015) (5/6)
Ms Jackie Sayce (o 31 Hydref 2015)

Aelodau yn Cynrychioli'r Myfyrwyr

Mr Lewis Donnelly, Llywydd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth (o 01 Gorffennaf 2015)
Mr Jacob Ellis, Llywydd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth (tan 30 Mehefin 2015)
Miss Hanna Merrigan, Llywydd UMCA (o 01 Gorffennaf 2015)
Miss Miriam Williams, Llywydd UMCA (tan 30 Mehefin 2015)

Rhoddir gwybodaeth am bresenoldeb aelodau'r Cyngor a fu'n gwasanaethu yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2015, wedi'i rhoi ar ffurf y nifer o gyfarfodydd y Cyngor yr aethpwyd iddynt allan o'r cyfanswm o gyfarfodydd yr oedd disgwyl i'r aelod fynd iddynt.

YMGYNGHORWYR PROFFESIYNOL

Archwilwyr allanol ac ymgynghorwyr ar dreth gorfforaethol

KPMG LLP

1 St. Peter's Square
Manchester
M2 3AE

Archwilwyr mewnol

Deloitte LLP
The Pinnacle
150 Midsummer Boulevard
Milton Keynes
Buckinghamshire
MK9 1FD

Bancwyr

Lloyds Bank
4th Floor
St William House
Tresillian Terrace
Cardiff
CF10 5BH

Cyfreithwyr

Eversheds LLP
Bridgewater Place
Water Lane
Leeds
LS11 5DR

Bond Dickinson LLP
3 Temple Quay
Temple Back East
Bristol
BS1 6DZ

Ymgynghorwyr actiwaraid a phensiynau

Mercer Limited
1 Tower Place West
Tower Place
London
EC3R 5BU

ADRODDIAD Y TRYSORYDD

Canlyniadau am y Flwyddyn

Yn 2014-15 cafodd y Brifysgol ganlyniadau ariannol cadarn a hynny er gwaethaf cefndir blwyddyn allweddol o gythrwbl y cynllun adfer. Mae gweddill bychan yn dangos bod y newidiadau yn sylfaen costau strwythurol y Brifysgol wedi'u rheoli'n dda a bod y gweddill hwn wedi arwain at dwf gwirioneddol yn yr asedau hylifol, yn hytrach na thechnegau cyfrifeg.

Mae cam cyntaf y llety pwrpasol *en-suite* newydd i fyfyrwyr yn Fferm Penglais wedi'i gwblhau ac mae'r fantolen yn adlewyrchu'r newid hwn yn yr asedau sefydlog, yn ogystal â chydabod y ddyled a gymerwyd er mwyn adeiladu'r llety hwn.

Mae'r incwm wedi codi yn bennaf oherwydd bod yr incwm llety wedi cynyddu ac oherwydd bod gennym y drydedd flwyddyn o fyfyrwyr sydd wedi ymuno â ni ar y ffi dysgu £9k y flwyddyn.

Dyma grynodeb o'r cyfrif incwm a gwariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2015, ynghyd â'r ffigyrau cymharol:

Incwm a Gwariant	2014-15 £ miliwn	2013-14 £ miliwn
Incwm	131.1	127.7
Gwariant	129.1	127.2
Gweddill ar Weithgareddau Parhaus ar ôl Dibrisio Asedau	2.0	0.5
Lleihau Gwerth Asedau	(1.2)	–
Gwerthu Asedau	(0.2)	0.2
Gweddill ar Weithgareddau Parhaus	0.6	0.7
<i>Rhannu rhwng</i>	0.4	0.4
<i>Trosglwyddo i'r Cronfeydd Waddol</i>	0.2	0.3
<i>Cadw o fewn yr Arian Cyffredinol wrth Gefn</i>		

(Sylwer: y Gweddill yn ôl y Costau Gwreiddiol oedd £2.5m yn 2014-15 (£2.7m yn 2013-14)

Cymarebau Iechyd Ariannol

Mae'r Brifysgol yn defnyddio sawl Dangosydd Perfformiad Allweddol i reoli iechyd ariannol y Brifysgol, a dyma grynodeb o'r newidiadau erbyn diwedd Gorffennaf 2015:

- Mae'r sicrwydd cronfa gynradd (arian parod wrth gefn) wedi gwella o 92 diwrnod i 101 diwrnod, yn deillio o gynnydd £3m yn yr arian parod a rhagolygon o dwf isel yn y gwariant.
- Mae cymhareb y Ddyled wedi lleihau wrth i'r Brifysgol ysgwyddo dyled i ariannu'r llety newydd i fyfyrwyr, ond mae'n dal i ddangos sefyllfa gref.
- Mae'r canlyniad a gedwir, sydd yn fras yn debyg i'r llynedd, yn dangos bod y gwariant wedi'i gloriannu mewn blwyddyn adfer anodd.

Cymarebau Allweddol	2014-15	2013-14
Sicrwydd cronfa gynradd (arian parod wrth gefn) <i>Sicrwydd ar gyfer diwrnodau gwario'r dyfodol</i>	101 diwrnod	92 diwrnod
Cymhareb y ddyled <i>Asedau hylifol fel % o'r ddyled</i>	60%	82%
Cymhareb ailgyflenwi <i>Canlyniad a gedwir fel % o gyfanswm incwm</i>	0.4%	0.5%


ADRODDIAD Y TRYSORYDD (parhad)

Incwm


Yn ystod y flwyddyn, mae cyfanswm yr incwm a gafwyd gan y Brifysgol wedi cynyddu £3.4m (2.7%).

Aros yn ei unfan a wnaeth yr incwm o ffioedd dysgu a grantiau'r cyrff cyllido ar gyfer dysgu, sef £78.1m (£78.2m y flwyddyn gynt). Mae cymysgedd y ffioedd yn wahanol, serch hynny, gan fod y cynnydd a ddaeth o'r ffioedd dysgu (gan fod y drydedd flwyddyn o fyfyrwyr erbyn hyn yn talu'r £9k) wedi cael ei wrthbwyso gan gwmp ym yr incwm gan y Cyngorau Cyllido. Mae'r twf yng nghyfanswm yr incwm yn deillio o'r twf yn yr incwm o Grantiau a Chontractau Ymchwil a'r twf mewn incwm o ffynonellau eraill.

Ffynhonnell Incwm (2014-15)



Newid Incwm £m (2014-15 vs 2013-14)



Cynyddu ei Gweithgareddau Ymchwil yw un o brif amcanion strategol y Brifysgol, ac mae hynny yn ei dro yn cefnogi'r gweithgareddau dysgu. Er gwaethaf y farchnad gystadleuol am Gyllid Ymchwil, mae'n galonogol nodi bod y Brifysgol wedi cofnodi 5% o gynnydd yn ei Hincwm Ymchwil, i £21.6m (£20.5m y flwyddyn gynt).

Mae'r twf mewn Incwm Arall yn adlewyrchu iawndal a dderbyniwyd mewn perthynas ag oedi mewn prosiect cyfalaf.

ADRODDIAD Y TRYSORYDD (parhad)


Gwariant

Trwy reoli'r sylfaen costau yn effeithiol llwyddwyd i gael gweddill bach am y flwyddyn.


Mae cyfanswm y gwariant ar y gweithgareddau rheolaidd, cyn eitemau eithriadol, wedi gostwng £0.4m (0.3%), a heb gynnwys chwyddiant, mae wedi lleihau £3.3m (2.6%). Ar ôl cynnwys cynnydd Llog a Chostau Cyllid Eraill, sef £2.3m, roedd cyfanswm y gwariant wedi cynyddu £ 1.9m (1.5%).

Costau staffio sy'n cyfrif am 56% o gostau'r Brifysgol ac maent wedi gostwng £1.5m (2.0%) o'u cymharu â rhai 2013-14, a heb gynnwys chwyddiant costau staffio, wedi gostwng £4.4m (6.0%). Mae hynny'n dangos bod yr ailstrwythuro, gan gynnwys y rheolaeth ar ail-lenwi swyddi, wedi llwyddo hyd yn hyn.

Rhandoriad gwariant (2014-15)



Gwahaniaeth gwariant £m (2014-15 v 2013-14)



Bu un eitem eithriadol o wariant untro yn ymwneud â dirywio asedau. Yn ystod y flwyddyn cynhaliodd y Brifysgol adolygiad ac ailasesiad llawn o'i hasedau wrth ymbaratoi at gyflwyno'r cyfrifon yn y fformat newydd, FRS102. Daeth yr adolygiad hwnnw i'r casgliad bod angen i'r asedau golli gwerth £1.2m.

Y Fantolen

At ei gilydd, mae'r asedau net yn cyd-fynd â'r sefyllfa yn 2013-14. Mae cyfanswm gwerth yr asedau net wedi cynyddu o £175.5m i 176.3m a, heb gynnwys grantiau cyfalaf gohiriedig, o £122.0m i £126.7m. Mae pob maes allweddol yn y fantolen wedi cryfhau ac eithrio'r credydwy'r hirdymor, sy'n adlewyrchu'r angen am gyllid benthg ar gyfer llety Fferm Penglais.

£ miliynnau	Asedau Cyffyrddadwy	Gwaddolion	Banc ac Arian Parod	Credydwy'r Hirdymor	Ymrwymiad Pensiynau
2014-15	189.9	44.7	28.8	55.3	13.2
2013-14	153.9	43.0	25.3	39.5	17.0
Symudiad	↑	↑	↑	↑	↓

Daw FRS102 i rym yn natganiadau ariannol y flwyddyn nesaf, yn 2015-16; effaith fwyaf hynny fydd cynnwys cyfran y Prifysgolion o Gronfa Bensiwn yr USS, ac ailbrisiad ystâd y Brifysgol.

ADRODDIAD Y TRYSORYDD (parhad)

Asedau Cyffyrddadwy Sefydlog

Mae cost asedau cyffyrddadwy wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn, o £153.9m i £189.9m o ganlyniad i £47.2m o ychwanegiad. Mae'r tâl dibrisio, sef £9.7m, a'r tâl colli gwerth, £1.2m, hefyd wedi cyfrannu at y newid i'r gwerth net yn ôl y llyfr. Mae'r llety i fyfyrwyr yn Fferm Penglais, gwerth £44.6m, wedi'i gofnodi. Ni chwblhawyd gwerth £30.3m o'r ased hwn ac felly fe'i rhoddwyd yn y dyledwyr hirdymor yn 2014-15. Dim ond y rhan o'r adeilad sy'n weithredol sy'n cael ei ddibrisio.

Yn ategu'r gwariant cyfalaf hwn, mae credydwyr hirdymor wedi cynyddu £15.8m o ganlyniad i'r cyllid angenrheidiol ar gyfer y gwariant cyfalaf ar yr adeiladau yn Fferm Penglais a oedd yn weithredol.

Gwaddolion

Cynyddodd gwerth y gwaddolion o £43.0m i £44.7m.

Perfformiad Buddsoddiadau Gwaddolion

I raddau helaeth mae ein gweinyddiaeth o'n buddsoddiadau gwaddolion yn parhau yn yr un modd. Gyda'i gilydd, 7.1% oedd cyfanswm adenillion y portffolio, sy'n cyd-fynd â'r meincnod cymysg adenillion, sef 7.5%.

Yn y flwyddyn hon 5.4% oedd ffigur adenillion Mynegai Holl Gyfrandaliadau yr FTSE, 12.7% oedd ffigur adenillion Mynegai'r Byd ac eithrio'r DU a 7.6% oedd adenillion Bondiau Corfforaethol y DU. Y ffigur i adenillion o Fynegai Cytbwys IPD ar Holl Eiddo y DU oedd 15.5%.

Safle a Rhagolygon y Gwaddolion

Ar 31 Gorffennaf 2015, roedd safle'r portffolio yn agos i'w dargedau dyrannu asedau strategol. Cyfanswm y dyraniad i ecwitiâu (y DU, Tramor a Phreifat) oedd 54.1%, sydd yn fras yn cyd-fynd â tharged y dyraniad, sef 55%. Ar draws gweddill y portffolio, ychydig yn is oedd yr Adennill Absoliwt (29.1% o'i gymharu â 30.0%) a'r Credyd Gradd Buddsoddi (8.9% o'i gymharu â 10%), tra'r oedd Eiddo (5.2% o'i gymharu â 5.0%) ac arian parod (2.6% o'i gymharu â 0%) ychydig yn uwch.

O edrych ar brisio'r marchnadoedd ecwiti, sydd yn elfen bwysig o adenillion hirdymor y dyfodol, gwelwn mai yn UDA y canolbwyntir risg prisiau o hyd, a bod marchnadoedd stoc y tu allan i UDA yn masnachu ar brisiadau mwy rhesymol o'u cymharu â'r cyfartaleddau hirdymor. Mae tueddiad strwythurol presennol y gwaddolion, sef i ffwrdd o UDA, yn cyd-fynd â'r safbwynt hwn ar brisio. O fewn yr incwm sefydlog, mae elwau'r bondiau yn aros yn agos at eu lefelau isaf erioed ac mae ganddynt rywfaint o risg o ran prisiau os bydd cyfraddau llog yn codi. O ganlyniad, i'r math hwn o ased, mae targed polisi incwm sefydlog yn bwrpasol isel.

Arian Parod ac Adneuron Byrdymor

Mae Arian Parod ac Adneuron Byrdymor wedi cynyddu o £25.3m i £28.8m. Dros y tair blynedd diwethaf mae'r Brifysgol wedi gwella ei sefyllfa o ran arian parod. O ganlyniad mae metrig Cronfa (Arian Parod) Gynradd y Brifysgol wedi estyn i 101 o ddiwrnodau (2014: 92). Dyma lefel briodol o hylifedd i fodloni anghenion gweithredol beunyddiol y sefydliad.

ADRODDIAD Y TRYSORYDD (parhad)

Pensiynau

Yn debyg i'r sefyllfa mewn llawer o sefydliadau, mae cynlluniau pensiynau buddiannau diffiniedig a gyllidir yn dal i fod yn rhwymedigaeth sylweddol ac yn risg. Ar ddechrau'r flwyddyn, roedd y Brifysgol yn cynnig dau gynllun buddiannau diffiniedig (AUPAS a USS) i'w staff. Yn ystod y flwyddyn sefydlodd y Brifysgol gynllun pensiwn cyfraniad sefydlog er mwyn cymryd lle y cynllun CPAPA. Yn ogystal mae gan y Brifysgol ddau aelod yn rhan o'r Cynllun Pensiwn buddiannau diffiniedig, Cronfa Pensiwn Dyfed. Lleihaodd cost y pensiwn 3.4% o £9.6m i £9.3m, yn adlewyrchu gostyngiad o 1.5% yng nghyflogau'r staff yn gyffredinol.

Cynllun Pensiwn ac Aswariant Prifysgol Aberystwyth (CPAPA) a Cronfa Pensiwn Dyfed (CPD)

Fel yr amlinellir yn nodyn 25, cynllun â buddiannau wedi'u diffinio yw Cynllun Pensiwn ac Aswariant Prifysgol Aberystwyth a chaiff yr asedau a'r rhwymedigaethau eu hail-fesur bob blwyddyn gan yr actiwariaid. Mae diffyg y CAPA a'r CPD (yn ôl dulliau mesur Safon Adrodd Ariannol 17) wedi gostwng o £17.0m i £13.2m.

Ar 31 Mawrth 2015, caewyd Cynllun Pensiwn ac Aswariant Prifysgol Aberystwyth i gyfraniadau pellach.

Cynllun Pensiwn Prifysgol Aberystwyth (CPPA)

O 1 Ebrill 2015, mae cyfraniadau'r staff presennol a newydd yn cael eu talu i'r cynllun cyfraniadau diffiniedig newydd a weinyddir gan L&G.

Cynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS)

Cynllun aml-gyflogwr yw Cynllun Pensiwn y Prifysgolion ac oherwydd na all y Brifysgol ddynodi faint yw ei chyfran hi o'r asedau a'r rhwymedigaethau, ymdrinnir â'r cynllun fel un cyfraniadau diffiniedig, lle y telir y cyfraniadau wrth iddynt godi.

Mae prisiad 2014 wedi'i offren yn ddiweddar ac mae'r broses archwilio ar waith ar hyn o bryd. Felly 31 Mawrth 2011 ("dyddiad y prisiad") oedd dyddiad y prisiad actiwaraidd teirblyneddol diwethaf o'r cynllun a archwiliwyd. Fe'i cynhaliwyd gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau. Mae prisiad 2014 yn dangos y bydd cyfraniadau'r cyflogwr yn cynyddu i 18% o 1 Ebrill 2016.

Cronfeydd wrth Gefn

Mae arian wrth gefn yng nghyfrif incwm a gwariant y Brifysgol ar 31 Gorffennaf 2015 wedi tyfu o £39.1m i £44.0m.

Mae'r fantolen wedi'i phrisio yn ôl y gost wreiddiol, ac felly nid yw'n ystyried gwerth masnachol gwaelodol yr asedau a brisiwyd dros £70m yn fwy na'r gwerth cario.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i symud i sefyllfa lle y cynhyrchir gweddillion arwyddocaol yn y tymor canolig er mwyn gwella'r cronfeydd wrth gefn.

Y Cynllun Adfer

Mae sawl elfen weithredol o'r cynllun adfer, ac mae'n galonogol gweld bod y newidiadau sylfaenol i'r seilwaith ar y trywydd iawn, fel y gwelir o ganlyniadau'r flwyddyn hon (gweddill bychan yn erbyn diffyg cyllidebol sylweddol).

Rhagamcanir y bydd diffygion i'r ddwy flynedd nesaf, un flwyddyn yn hwyrach na'r disgwyl gan fod niferoedd myfyrwyr yn cyrraedd eu hisaf isaf un flwyddyn yn hwyrach na'r cynllun.

Hyd yn hyn, mae ffocws y cynllun adfer wedi bod ar wella strwythur mewnol y brifysgol. Yn y dyfodol mae'r cynllun yn rhagweld ffynhonnellau newydd o gynrychi gwarged, gan gynnwys rheini o weithgareddau masnachol, a bydd hyn yn bwynt ffocws yn y dyfodol.

ADRODDIAD Y TRYSORYDD (parhad)

Y Rhagolygon a'r Dyfodol

Gweithredoedd a'r amgylchedd cystadleuol

Mae Addysg Uwch yn y DU yn amgylchedd a chanddo lawer iawn mwy o risg yn 2015 nag yr oedd yn 2010 oherwydd y newidiadau yn y drefn ariannu. Mae gallu denu a chadw myfyrwyr yn hanfodol bwysig i gynaliadwyedd y mwyafrif helaeth o brifysgolion yn y DU. Dyma'r prif heriau y mae'r Brifysgol yn gweithio i ymdrin â hwy:

- y farchnad am fyfyrwyr sy'n mynd yn fwyfwy cystadleuol;
- gweithio â lefelau o incwm sy'n amrywio yn ôl nifer y myfyrwyr;
- denu myfyrwyr o dramor wrth i'r DU dynhau'r rheolau ar gyfer preswyllo i ôl-raddedigion;
- llai o gyllid ar gael o'r sector cyhoeddus ar gyfer cyllid grantiau;
- parhau â'r buddsoddiadau yn yr ystadau a sicrhau mesurau llwyddiant myfyrwyr llwyddiannus.

Bydd y Brifysgol yn buddsoddi mewn gweithgareddau ysgogi priodol er mwyn i adrannau unigol feithrin gwell cyswllt â darpar fyfyrwyr a hefyd adolygu'r sefyllfa gyffredinol o ran denu myfyrwyr a marchnata. Bydd y Brifysgol yn dal i wneud buddsoddiadau mawr yn ei hystâd a bydd hynny'n rhoi pwysau ychwanegol ar ei sefyllfa ariannol dros y blynyddoedd nesaf cyn y gwelir niferoedd da o fyfyrwyr.

Bydd y Brifysgol hefyd yn dal ati â'i hagenda effeithlonrwydd a fydd yn golygu gwneud mwy â llai.

Datblygu

Bydd datblygiadau mawr y bydd eu hangen er mwyn cynnal enw da'r Brifysgol yn rhyngwladol dros y blynyddoedd nesaf yn cynnwys:

- creu campws newydd, Campws Arloesi a Menter;
- lansio a datblygu Cangen-Gampws Mawrisiws;
- paratodau a chynlluniau at adnewyddu'r Hen Goleg ymhen ychydig o flynyddoedd.

Safonau Ariannol Newydd

Paratoir datganiadau ariannol 2015-16 yn unol â Safon Adroddiadau Ariannol 102. Bydd angen i ddatganiadau ariannol 2014-15 gael eu hailddatgan; dyma fydd y newidiadau mwyaf arwyddocaol:

- byddant yn cynnwys budd y Brifysgol yng Nghynllun Pensiwn y Prifysgolion;
- bydd asedau'r Tir ac Adeiladau yn cael eu hailbrisio
- bydd rhwymedigaeth y Brifysgol am wyliau'r staff yn cael ei chynnwys; a
- bydd grantiau cyfalaf gohiriedig yn cael eu dangos o dan asedau net yn hytrach nag o dan y cronfeydd wrth gefn.

Ar ben hyn, bydd angen i'r datganiadau ariannol cyfunol ar gyfer cyfrifon 2015-16 gynnwys y buddion yng Nghangen Mawrisiws a Champws Arloesi a Menter Prifysgol Aberystwyth.

Blwyddyn o gryn newid yn yr Adran Gyllid oedd 2014-15, gyda thri unigolyn yn ysgwyddo cyfrifoldeb am swydd y cyfarwyddwr. Carwn felly ddatgan fy ngwerthfawrogiad o waith Peter Curran, y Cyfarwyddwr Cyllid tan Ionawr 2015, a aeth i swydd Cyfarwyddwr Corfforaethol i Chwaraeon Cymru, ac i ddiolch i Eiddig Morgan a fu'n Gyfarwyddwr Cyllid Dros Dro cyn i Daniel Benham - a oedd yn gweithio i Sefydliad y Fagloriaeth Ryngwladol - gymryd yr awenau fel y Cyfarwyddwr Cyllid newydd ym mis Mawrth 2015. Rwy'n hynod ddiolchgar iddynt ac i holl aelodau'r Adran Gyllid am eu gwaith caled a'r ymdrech maent wedi'i gwneud.

Dr Timothy Brain, OBE QPM BA PhD FRSA CCMI
Trysorydd
4 Rhagfyr 2015

LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL A RHEOLAETH FEWNOL

Yn unol â Siarter Frenhinol Ategol 2014 Prifysgol Aberystwyth, Cyngor y sefydliad yw "corff llywodraethol goruchaf y Brifysgol" ac mae'n gyfrifol am benderfynu ar gyfeiriad strategol y Brifysgol ac am y modd y gweithredir materion ariannol a gweinyddol, a materion eraill y Brifysgol, yn unol â'i hamcanion."

Yn unol â gofynion Statudau'r Brifysgol; mae'r Cyngor yn cynnwys: Aelodau Annibynnol (rhai ohonynt yn gwasanaethu *ex officio*); aelodau o'r staff *ex-officio*; ac aelodau cynrychioliadol a etholir gan y Senedd, y staff anacademaidd a'r myfyrwyr. Caiff y Cyngor hefyd gyfethol aelodau ychwanegol os dymuna wneud hynny, er nad yw hynny'n digwydd ar hyn o bryd. Ni fydd cyfanswm aelodaeth y Cyngor yn fwy na 25.

Aelodau Annibynnol anweithredol yw'r rhan fwyaf o aelodau'r Cyngor, nad ydynt yn aelodau o'r staff nac yn fyfyrwyr y Brifysgol. Ar ben hynny, mae swyddogaeth Cadeirydd y Cyngor - sydd ar gael i Aelod Annibynnol yn unig - wedi'i gwahanu oddi ar swyddogaeth Prif Weithredwr y Brifysgol, sef yr Is-Ganghellor.

Mae Prifysgol Aberystwyth wedi ymrwmo i hybu cydraddoldeb ac amrywioldeb, ac mae'n ymdrechu i fod yn gynhwysol ac i werthfawrogi natur amrywiol ei staff, ei myfyrwyr a'i chymuned. Hysbyseb pob swydd wag am Aelodau Annibynnol y Cyngor yn allanol, ac mae croeso enwedig pan geir diddordeb o blith grwpiau a dangynrychiolir. Mae'r mynegiannau o ddiddordeb fel rheol yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Enwebiadau a'u pwysu a'u mesur yn ôl aelodaeth bresennol y Cyngor i sicrhau bod gan ei aelodau ystod o sgiliau sy'n bodloni gofynion y Brifysgol.

Mae'r Brifysgol yn anelu at ymgymryd â'i gwaith mewn modd moesegol yn unol â'r saith egwyddor a osodwyd yn Adroddiad Pwyllgor Nolan ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus: anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd ac arweinyddiaeth.

Mae'r Brifysgol hefyd wedi ymrwmo i arddel yr arfer gorau ym mhob agwedd ar lywodraethu corfforaethol, gan roi ar waith yr egwyddorion craidd a'r saith elfen sylfaenol o lywodraethu fel y'u gosodwyd yn 'Cod Llywodraethu Addysg Uwch' Pwyllgor Cadeiryddion y Prifysgolion (Rhagfyr 2014) yn ogystal â'r egwyddorion perthnasol a roddir yn 'Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU' a gyhoeddwyd gan y Cyngor Adrodd Ariannol.

Disgrifir prif gyfrifoldebau'r Cyngor yn Ystatudau ac Ordinadau'r Brifysgol. Yn ôl yr arfer ac yn unol â'r Memorandwm Ariannol y cytunwyd arno â Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, mae'r Cyngor yn dal iddo'i hun, ymysg pethau eraill, gyfrifoldeb am gymeradwyo datblygiadau a gwariant sylweddol, ac am sefydlu unrhyw is-gwmnïau ac am weithgareddau'r is-gwmnïau hynny.

Cyfarfu'r Cyngor ar chwe achlysur yn ystod y flwyddyn academiaidd 2014-2015. Ymdrinnir â llawer o'r gwaith manwl gan sawl is-bwyllgor, gan gynnwys: y Pwyllgor Archwilio a Risg; y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth; y Pwyllgor Datblygu Proffesiynol, Staffio a Chydraddoldeb; a'r Pwyllgor Taliadau Staff. Mae pob un o'r is-bwyllgorau hyn yn cyflwyno eu hadroddiadau i'r Cyngor, ac mae pob un wedi'i sefydlu'n ffurfiol â'i gylch gorchwyl ei hun a chyfran o'i aelodau yn dod o blith Aelodaeth Annibynnol y Cyngor. Mae gwybodaeth fanwl am aelodaeth a chyfrifoldebau'r is-bwyllgorau hyn i'w chael ar ein gwefan.

Sefydlwyd y Pwyllgor Taliadau Staff i ystyried a phennu materion sy'n ymwneud â thalu Staff Uwch y Brifysgol, o fewn fframwaith cyffredinol a gymeradwywyd gan y Cyngor yn rhan o gylch gorchwyl diffiniedig yr is-bwyllgor hwn. Wrth gytuno i unrhyw newidiadau i'r tâl a roddir i'r Is-Ganghellor, y Dirprwy Is-Ganghellorion ac aelodau eraill o Grŵp Gweithredol y Brifysgol, mae'r Pwyllgor Taliadau Staff yn ystyried i ba raddau y gellir fforddio unrhyw benderfyniadau o'r fath. Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaethau Uwch yn rhoi adroddiadau i'r Cyngor ar ei holl benderfyniadau.

Yn y pen draw, Cyngor y Brifysgol sy'n gyfrifol am drefniadau rheoli mewnol y Brifysgol ac am arolygu effeithiolrwydd y trefniadau hynny. Bwriad trefniadaeth o'r fath yw rheoli'r risg o fethu a chyflawni amcanion busnes yn hytrach na chael gwared a'r risg honno, a bydd yn cynnig sicrwydd rhesymol yn unig – nid sicrwydd absoliwt – yn erbyn camddatgan neu golled sylweddol.

Cred y Cyngor fod proses barhaus ar gyfer canfod, gwerthuso a rheoli risgiau arwyddocaol y Brifysgol; ei bod wedi bod ar waith ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Gorffennaf 2015 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol; ei bod yn cael ei hadolygu gan y corff llywodraethol yn rheolaidd; a'i bod yn cydymffurfio â chanllawiau rheoli mewnol i Gyfarwyddwyr yng Nghod Llywodraethu Corfforaethol y DU, fel y'i diwygiwyd gan Grŵp Cyfarwyddwyr Cyllid Prifysgolion Prydain.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn gyfrifol am gwrdd â'r Archwilwyr Allanol i drafod canfyddiadau'r archwiliad, ac am gwrdd â'r Archwilwyr Mewnol i ystyried adroddiadau manwl ar archwiliadau mewnol ac argymhellion i wella trefniadau rheoli mewnol y Brifysgol, ynghyd ag ymateb y rheolwyr a'r cynlluniau gweithredu. Mae'r is-bwyllgor hwn hefyd yn monitro sut y glynir wrth y gofynion rheoliadol, ac yn arolygu datganiadau ariannol blynyddol y Brifysgol ynghyd â'r polisiâu cyfrifeg. Ar ben hynny, gellid gofyn iddynt archwilio enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio â deddfwriaeth a rheoliadau eraill.

LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL A RHEOLAETH FEWNOL (parhad)

Er bod uwch-swyddogion gweithredol yn mynd i gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn ôl yr angen, nid ydynt yn aelodau o'r is-bwyllgor hwnnw, a gall aelodau'r is-bwyllgor gwrdd â'r Archwilwyr ar eu pennau eu hunain er mwyn cael trafodaethau annibynnol.

Mae gan Bwyllgor Rheoli Risg y Brifysgol, a arweinir gan y Weithrediaeth, brosesau ffurfiol ar waith i werthuso a rheoli risgiau sylweddol y mae'r Brifysgol yn eu hwynebu. Mae hynny'n cynnwys nodi y mathau o risgiau y mae'r Brifysgol yn eu hwynebu, gan eu blaenoriaethu o ran eu heffaith ddichonol ac o ran pa mor debyg ydynt o ddigwydd, a nodi ffyrdd o leihau'r risgiau hynny. Mae'r risgiau hyn yn cynnwys risgiau i fusnes, gweithredu, enw da a chyllid, ac maent yn cael eu monitro, ynghyd â'r dulliau rheoli cysylltiedig, yn barhaus. Rhoddir adroddiadau ac argymhellion priodol i'r Cyngor, drwy'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

Mae gan y Brifysgol Gynllun Cyhoeddi y cytunwyd arno sy'n pennu'r wybodaeth a fydd yn cael ei darparu i'r cyhoedd gan y sefydliad. Ceir mwy o wybodaeth ar ein gwefan. Ar ôl i'r datganiadau ariannol gael eu cymeradwyo'n ffurfiol gan y Cyngor, fe'u cyhoeddir ar wefan y Brifysgol, ynghyd â'r datganiadau sy'n ymwneud â blynyddoedd academiaidd ac ariannol blaenorol.

DATGANIAD O FUDD CYHOEDDUS

Mae Prifysgol Aberystwyth yn elusen gofrestrdedig (Rhif 1145141) yn unol â thelerau Deddf Elusennau 2011. Wrth bennu ac adolygu nodau ac amcanion y Brifysgol, mae Cyngor y Brifysgol yn rhoi ystyriaeth briodol i ganllawiau cyffredinol y Comisiwn Elusennau ar y budd cyhoeddus a'r canllawiau ategol i elusennau a sefydlwyd at ddibenion addysgiadol.

Ers 1872 mae'r Brifysgol yn hybu rhagoriaeth mewn ymchwil a dysgu o dan ei harwyddair, 'Nid byd, byd heb wybodaeth'. Credwn yn gryf y dylai profiad y myfyriwr feithrin chwilfrydedd academiaidd, ac awydd am ddysg a datblygu personol sy'n para gydol oes ac sy'n trawsnewid bywydau. Rydym yn gwerthfawrogi arloesedd a rhagoriaeth mewn ymchwil ym mhob maes a disgyblaeth, ac rydym yn annog gwaith ar draws y disgyblaethau er mwyn ymdrin â heriau byd-eang. Anelwn at chwalu'r meini tramgwydd sy'n rhwystro pobl rhag gallu manteisio ar addysg ac rydym yn cydweithio'n agos â'r gymuned er mwyn sicrhau bod y drysau i'n darpariaeth yn cael eu hagor yn lletach.

Dysgu

Ein cenhadaeth greiddiol yw cynhyrchu graddedigion hyddysg, medrus a hyderus sydd wedi'u paratoi'n drylwyr i fyd gwaith ac i waith y byd. Rydym yn gwneud hynny drwy ddarparu dysgu rhagorol ar draws 18 maes academiaidd a thrwy ymgorffori cyflogadwyedd, sgiliau trosglwyddadwy a materion dinasyddiaeth fyd-eang yn ein cwricwlwm. Rydym yn cefnogi amrywiaeth o brosiectau ar gyfer dysgu yn y gymuned, a phortffolio o gyrсияu rhan-amser ac undydd. Cydnabyddwn ein dyletswydd arbennig i hyrwyddo cysylltiadau cyfrwng-Cymraeg ac i hybu'r Gymraeg ac rydym yn chwarae rhan weithredol wrth annog myfyrwyr Cymraeg i ddilyn eu hastudiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ymchwil

Mae gennym hanes hir ac anrhydeddus o ymgymryd â gwaith ymchwil blaenllaw sydd o bwysigrwydd rhyngwladol, gan ymchwilio i'r prif heriau sy'n wynebu'r gymdeithas, gan gynnwys newid yn yr hinsawdd a'r amgylchedd, anghydraddoldeb byd-eang, ymchwil i'r gofod, economeg ryngwladol, deallusrwydd artiffisial a hunaniaethau diwylliannol. Gweithiwn i feithrin cyswllt â'r cyhoedd drwy ein hymchwil ac rydym yn ymfefydlu fel canolfan ar gyfer ymchwil gydweithredol â busnesau drwy ein campws newydd, y Campws Arloesi a Menter.

Ehangu cyfranogiad

Mae ein dull arloesol ni o ehangu'r drysau i addysg uwch yn cynnwys prosiectau i godi uchelgais ymhlith y rhai sy'n gadael ysgol, ac rydym yn cydweithio'n agos ag ysgolion (gan gynnwys ysgolion Cymraeg) a'r gymuned leol i wella sgiliau, yn enwedig yn y pynciau STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg). Rydym yn darparu ystod gynhwysfawr o Fwrsariaethau, Ysgoloriaethau Mynediad a Gwobrau, yn ogystal â darparu fframwaith o gefnogaeth ariannol i sicrhau bod myfyrwyr o bob cefndir yn gallu manteisio ar Addysg Uwch. Rydym hefyd yn darparu ystod o gymorth academiaidd a phersonol a dargedir ar gyfer y myfyrwyr i'w helpu i aros mewn addysg uwch ac i hybu eu llwyddiant. Rydym yn gweithio gydag amryw gyrrff, gan gynnwys Stonewall, ButtleUK, Athena SWAN, yr Uned Her Cydraddoldeb, a Chomisynydd y Gymraeg.

Cyrhaeddiad Rhyngwladol

Cymuned ryngwladol ffyniannus ydym, yn croesawu staff a myfyrwyr o dros 90 o wledydd o bob cwr o'r byd, ac yn cydweithio â sefydliadau, busnesau a chyrff ledled y byd. Rydym yn agor cangen-gampws newydd ym Mawrisiws, er mwyn estyn ein cyrhaeddiad byd-eang a chodi proffil rhyngwladol gorllewin Cymru.

Cyswllt â'r Gymuned

Mae gennym gyswllt cryf â'n cymuned leol drwy raglenni diwylliannol bywiog ein Canolfan Gelfyddydau (gan gynnwys ystod eang o ddigwyddiadau drwy gyfrwng y Gymraeg ac rydym yn denu 75% o ymwelwyr y flwyddyn, bron), ein gwaith partneriaethol â Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac ag ysgolion lleol a grwpiau cymunedol, a thrwy waith gwirfoddol gan ein staff a'n myfyrwyr a gwasanaethau a gynigir i fusnesau rhanbarthol. Rydym yn cefnogi'r ysbyty lleol a rhaglenni iechyd cymunedol, ac yn darparu adnoddau chwaraeon a dosbarthiadau o safon uchel i'r gymuned leol.

CYFRIFOLDEBAU CYNGOR Y BRIFYSGOL

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i arddel yr arfer gorau ym mhob agwedd ar lywodraethu corfforaethol. Mae corff llywodraethol y sefydliad, sef y Cyngor, wedi'i fodloni bod y sefydliad wedi cydymffurfio drwy gydol y cyfnod â Chod Ymarfer Llywodraethu ac Egwyddorion Cyffredinol Pwyllgor Cadeiryddion y Prifysgolion (Mawrth 2009) ac yn ddiweddarach â Chod Llywodraethu Addysg Uwch (Rhagfyr 2014), yn ogystal â'r darpariaethau perthnasol a osodwyd yng Nghod Llywodraethu Corfforaethol y DU a gyhoeddwyd gan y Cyngor Adrodd Ariannol ym mis Medi 2014.

Y Cyngor sy'n gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifeg addas, a fyddai'n datgelu â chywirdeb rhesymol, ar unrhyw adeg, sefyllfa ariannol y Brifysgol fel y gallai sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cael eu paratoi yn unol â Siarter ac Ystadudau'r Brifysgol, a'r Datganiad o Arferion Cymeradwy: Cyfrifon i Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch, ac â safonau cyfrifeg perthnasol eraill.

Ar ben hynny, yn rhan o delerau ac amodau'r Memorandwm Ariannol y cytunwyd arno rhwng Cyngor Prifysgol Aberystwyth a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, mae'n ofynnol i Gyngor y Brifysgol, drwy'r Is-Ganghellor fel ei swyddog dynodedig, baratoi adroddiadau ariannol am bob blwyddyn ariannol, sydd yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r Brifysgol, o'r gweddill neu'r diffyg, ac o'r llif arian am y flwyddyn honno.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol hefyd am gynnal ac am gywirdeb datganiadau ariannol a gyhoeddir ar wefan y Brifysgol.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, sicrhaudd y Cyngor fod:

- polisiau cyfrifeg addas yn cael eu dethol a'u gweithredu'n gyson;
- asesiadau ac amcangyfrifon rhesymol a synhwyrol yn cael eu gwneud;
- safonau cyfrifeg perthnasol yn cael eu dilyn, a bod unrhyw amrywiadau sylweddol yn y drefn yn cael eu datgelu a'u hegluro yn y datganiadau ariannol; a bod
- y datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar sail busnes parhaus, oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y Brifysgol yn parhau i weithredu. Mae'r Cyngor wedi'i fodloni bod gan y Brifysgol ddigon o adnoddau i barhau i weithredu am y dyfodol gweladwy; am y rheswm hwn mae'r sail barhaus yn dal i gael ei defnyddio wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

Cymerodd y Cyngor gamau rhesymol i:

- sicrhau bod y cyllid a ddaw oddi wrth Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn cael ei ddefnyddio i'r pwrpas a nodwyd wrth ei roi yn unig, ac yn unol â'r Memorandwm Ariannol gyda'r Cyngor Cyllido, ac yn unol ag unrhyw amodau eraill y bydd y Cyngor Cyllido yn eu gosod o bryd i'w gilydd;
- sicrhau bod rheoliadau trefniadau ariannol a rheolaeth addas mewn grym i ddiogelu cyllid cyhoeddus yn ogystal â chyllid a ddaw o ffynonellau eraill;
- warchod asedau'r Brifysgol gan atal a darganfod twyll ac arferion afreolaidd eraill; a
- sicrhau bod adnoddau a gwariant y Brifysgol yn cael eu rheoli'n economaidd, effeithlon, ac yn effeithiol.

Dylid nodi y gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig yn ymwneud â pharatoi a dosbarthu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL I GYNGOR PRIFYSGOL ABERYSTWYTH

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol y Brifysgol (y "datganiadau ariannol") ar gyfer Prifysgol Aberystwyth i'r flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2015, sy'n cynnwys y Cyfrif Incwm a Gwariant, Mantolen y Brifysgol, Datganiad Llif Arian y Brifysgol, y Datganiad am Gyfanswm yr Enillion a'r Colledion Cydnabyddedig, y Polisiâu Cyfrifeg a'r nodiadau cysylltiedig. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifeg y Deyrnas Unedig (Arferion Cyfrifeg a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Gwneir yr adroddiad hwn i'r Cyngor yn unig, yn unol â Siarter a Statudau'r Brifysgol. Mae ein gwaith archwilio wedi ei wneud er mwyn datgan i'r Cyngor y materion hynny y mae'n ofynnol arnom eu datgan iddo mewn adroddiad archwilio, ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau mwyaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac arddel cyfrifoldeb i neb ond y Cyngor, am ein gwaith archwilio, yr adroddiad hwn, a'r casgliadau yr ydym wedi eu gwneud.

Cyfrifoldebau Perthnasol y Cyngor a'r Archwilwyr

Fel yr esbonnir yn llawnach yn y datganiad o Gyfrifoldebau Cyngor y Brifysgol, y Cyngor sydd yn gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun gwir a theg. Ein cyfrifoldeb ni yw archwilio a rhoi ein barn ar y datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifeg Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn golygu ei bod hi'n ofynnol arnom gydymffurfio â Safonau Moesegol Archwilwyr y Bwrdd Arferion Archwilio.

Cwmpas archwiliad y datganiadau ariannol

Mae archwiliad yn golygu cael gafael ar ddigon o dystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau a geir yn y datganiadau ariannol fel y gellir cael sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys camddatganiadau materol, boed hynny'n deillio o dwyll neu amryfusedd. Mae hynny'n cynnwys asesiad o'r materion canlynol: a yw'r polisiâu cyfrifeg yn addas i amgylchiadau'r Brifysgol ac a ydynt wedi'u cymhwysu'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; pa mor rhesymol yw'r amcangyfrifon o sylwedd a wnaed gan y Cyngor; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol. Ar ben hynny, darllenwn yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn Adroddiad y Trysorydd i sicrhau nad oes anghysonderau o sylwedd â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd, ac i ddod o hyd i unrhyw wybodaeth sydd i'w gweld yn sylweddol anghywir ar sail y wybodaeth a gawsom wrth inni gynnal yr archwiliad, neu sydd yn sylweddol anghyson â'r wybodaeth a gawsom. Pe caem wybod am unrhyw gamddatganiadau neu anghysonderau ymddangosiadol, a'r rheini o sylwedd, ystyriem oblygiadau hynny i'n hadroddiad.

Barn ar y datganiadau ariannol

Yn ein barn ni:


- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg o gyflwr materion y Brifysgol ar 31 Gorffennaf 2015 ac o incwm a gwariant y Brifysgol, a'i henillion a'i cholledion cydnabyddedig a'r llif arian am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi'n gywir yn unol â'r Arferion Cyfrifeg a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig; ac â Datganiad 2007 ar Arferion Cymeradwy - Cyfrifeg mewn Addysg Bellach ac Uwch; ac
- maent yn bodloni gofynion cyfarwyddiadau Cyfrifon CCAUC i sefydliadau addysg uwch ar gyfer datganiadau ariannol 2014-15.

ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL (parhad)

Barn ar faterion eraill a ragnodwyd yng Nghod Ymarfer Archwilio CCAUC a gyhoeddwyd yn ôl Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992

Yn ein barn ni, ym mhob agwedd o sylwedd:

- mae'r cyllid a dderbyniwyd o ba bynnag ffynhonnell gan y Brifysgol at ddibenion penodol wedi'i ddefnyddio yn briodol at y dibenion hynny a'i reoli yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol;
- mae incwm wedi'i ddefnyddio yn unol â Statudau'r Brifysgol;
- mae'r cyllid a ddarparwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) wedi'i ddefnyddio yn unol â'r Memorandwm Ariannol ar Aswariant ac Atebolrwydd ac unrhyw delerau ac amodau cysylltiedig eraill; ac
- mae gofynion llywodraethu corfforaethol a rheolaeth fewnol a roddwyd yng nghyfarwyddiadau Cyfrifon CCAUC i sefydliadau addysg uwch ar gyfer datganiadau ariannol 2014-15 wedi'u bodloni.



Trevor Rees, Archwilydd Statudol

**Ar gyfer ac ar ran KPMG LLP, Archwilydd Statudol
Cyfrifwyr Siartredig
Rhagfyr 2015**

DATGANIAD AM Y PRIF BOLISIÂU CYFRIFEG

1 Sail Paratoi'r Cyfrifon

- 1.1 Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â chonfensiwn y gost wreiddiol, wedi ei addasu ar ôl ailbrizio tir ac adeiladau, ac yn unol â'r Datganiad o Arferion Cymeradwy: Cyfrifon i Addysg Bellach ac Uwch, y Safonau Cyfrifeg perthnasol a'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan CCAUC.
- 1.2 Ni pharatowyd datganiadau ariannol cyfansawdd sy'n ymgorffori is-gwmnïau'r Brifysgol, sef Abertec Cyf, Aber Trading Cyf, Aber Bangor Cyf a Champws Arloesi a Menter Aberystwyth Cyf, gan nad ystyrir bod canlyniadau, asedau na rhwymedigaethau'r cwmnïau hyn yn sylweddol.
- 1.3 Nid yw'r datganiadau yn cynnwys rhai Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth, lle nad oes gan y Brifysgol unrhyw fudd ariannol perchnogol, na rheolaeth na dylanwad arwyddocaol ar benderfyniadau polisi.
- 1.4 Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi ar sail busnes parhaus.

2 Cydnabod Incwm

- 2.1 Cynhwyswyd incwm o Grantiau a Chontractau Ymchwil ac o ffynonellau cyfyngedig eraill, i'r graddau bod y contract neu'r gwasanaeth dan sylw wedi'i gwblhau. Mae hyn fel rheol yn gyfwerth â'r gwariant yn ystod y flwyddyn, ynghyd â chyfraniadau cysylltiedig tuag at argostau.
- 2.2 Mae incwm o ffioedd dysgu a neuaddau yn cael ei gydnabod am y cyfnod y'i ceir amdano, ac yn cynnwys yr holl ffioedd a godir ar fyfyrwyr neu eu noddwyr. Mewn achosion lle mae swm y ffi dysgu neu'r ffi neuadd yn cael ei hepgor neu ei leihau, mae'r incwm derbyniadwy yn cael ei ddangos wedi tynnu'r disgownt. Mae Bwrsariaethau ac Ysgoloriaethau yn cael eu cyfrif gros o fewn gwariant a heb eu tynnu o incwm.
- 2.3 Mae Rhoddion Elusennol yn cael eu cydnabod yn y cyfrifon pan fo'r rhodd elusennol wedi'i derbyn, neu os nad yw wedi'i derbyn eto, pan fo digon o dystiolaeth fel y gellir bod yn ddigon sicr y bydd y rhodd yn cael ei derbyn a bod modd mesur gwerth yr adnoddau a ddaw gyda digon o sicrwydd.
- 2.4 Os yw rhoddion elusennol yn mynd i gael eu cadw er budd y sefydliad fel y nodir gan y rhoddwyr, fe'u cyfrifir yn waddolion. Tri phrif fath o waddol sydd:
 - (ii) Gwaddolion Parhaol Digyfyngiad – mae'r rhoddwr wedi nodi bod y gronfa i'w buddsoddi'n barhaus i gynhyrchu llif incwm er budd cyffredinol y Brifysgol.
 - (ii) Gwaddolion Parhaol Penodol – mae'r rhoddwr wedi nodi bod y gronfa i'w buddsoddi'n barhaus i gynhyrchu llif incwm i'w defnyddio at ryw fwriad penodol.
 - (iii) Gwaddolion Treuliadwy Penodol – mae'r rhoddwr wedi nodi amcan penodol ac eithrio prynu nac adeiladu asedau cyffyrddadwy sefydlog, ac fe gaiff y sefydliad droi'r swm a roddwyd yn incwm.

Lle bo dymuniadau'r rhoddwyr yn aneglur neu'n anhysbys, yn achos rhoddion a gafwyd cyn 1 Awst 2007, mae'r rhoddion yn dal i gael eu cyfrif yn Waddolion Parhaol yn unol â'r arfer cyfrifeg a arddelwyd pan sefydlwyd y cronfeydd.
- 2.5 Cydnabyddir grantiau adnewyddol oddi wrth y Cynghorau Cyllido yn ystod cyfnod eu derbyn.
- 2.6 Mae grantiau adnewyddol oddi wrth y Cynghorau Cyllido neu gyrff eraill am brynu neu adeiladu asedau sefydlog yn cael eu trin fel grantiau cyfalaf gohiriedig a'u hamorteiddio yn unol â dibrisiant dros oes yr asedau. Caiff grantiau adnewyddol i bwrpas penodol eu cynnwys fel y cânt eu gwario, ac mae unrhyw elfennau na werir yn cael eu trin fel incwm gohiriedig.
- 2.7 Y mae'r holl incwm o adneuon tymor byr yn cael ei gredydu i'r cyfrif incwm a gwariant yn ystod y cyfnod y cafodd ei ennill.
- 2.8 Mae gwerth sy'n codi neu'n gostwng o ganlyniad i ailbrizio asedau gwaddolion, hynny yw adbrizio neu ddbrisio asedau gwaddolion, yn cael ei ychwanegu at - neu ei dynnu oddi ar - y cronfeydd dan sylw ac yn cael ei gyfrif drwy'r fantolen drwy ddebydu neu gredydu'r ased gwaddol, credydu neu ddebydu'r gronfa gwaddol ac mae'n cael ei gofnodi yn y datganiad o gyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig.

DATGANIAD AM Y PRIF BOLISIŶAU CYFRIFEG (parhad)

3 Tir ac Adeiladau

- 3.1 Ailbrisiwyd eiddo rhydd-ddaliad ac eiddo prydlles y Brifysgol ar 31 Gorffennaf 1994 ar sail gwerth adnewyddu ar ôl dibrisiant. Yn ôl darpariaethau FRS 15, mae'r asedau hyn yn parhau ar brisiad 1994. Mae ychwanegiadau eraill yn cael eu dal yn ôl y gost.

Cedwir tir ar rydd-ddaliad heb ddibrisiant gan yr ystyrir bod iddo ddefnyddioldeb am gyfnod amhenodol.

Mae adeiladau a gyfalafwyd yn cael eu dibrisio dros gyfnod eu hoes economaidd ddefnyddiol, yn unol â'u rhannau cyfansoddol, sef:

Tymor hir e.e. sylfeini ac adeiladwaith	40 i 60 o flynyddoedd
Tymor canolig e.e. gwasanaethau	10 i 30 o flynyddoedd
Tymor byr e.e. gosodiadau mewnol	5 i 10 o flynyddoedd

Mae'r cyfraddau hyn wedi'u rhoi ar waith i bob adeilad newydd o 1 Awst 2011 ymlaen.

Cyn 1 Awst 2011, dibrisiwyd adeiladau dros 40 o flynyddoedd ar sail llinell syth o ddyddiad y prisiad, neu o'u caffael ar ôl y dyddiad hwnnw.

Mae gwaith atgyweirio ac adnewyddu mawr yn cael ei gyfalafu os yw'r gwaith yn creu ased neu'n gwella ased presennol, neu'n gwella neu ailwampio ased yn sylweddol. Mae costau adnewyddu yn cael eu cyfalafu a'u dibrisio dros gyfnodau amrywiol, hyd at 15 mlynedd ar y mwyaf.

- 3.2 Lle prynir adeiladau gyda chymorth grantiau penodol cânt eu cyfalafu a'u dibrisio fel y nodir uchod. Ystyrir bod y grantiau perthynol yn grantiau cyfalaf gohiriedig ac fe gânt eu rhyddhau i incwm dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr adeiladau.
- 3.3 Nid yw asedau yn cael eu dibrisio yn ystod proses adeiladu, cyfrifir amdanynt yn ôl y gost.

4 Offer

- 4.1 Y mae gwariant ar offer sy'n costio llai na £10,000 fesul eitem unigol yn cael ei ddileu ym flwyddyn eu prynu. Mae'r holl offer eraill yn cael eu cyfalafu.
- 4.2 Cofnodwyd offer a gyfalafwyd yn ôl ei gost a'i ddibrisio, drwy'r dull llinell syth, dros gyfnod disgwyliedig ei ddefnyddioldeb, sef pum mlynedd, heblaw am offer a gafwyd ar gyfer prosiectau ymchwil penodol sy'n cael eu ddibrisio dros gyfnod y prosiect (sef 3 blynedd fel arfer).
- 4.3 Lle prynir offer gyda chymorth grantiau penodol caiff ei gyfalafu a'i ddibrisio fel y nodir uchod. Ystyrir bod y grantiau perthynol yn grantiau cyfalaf gohiriedig a chânt eu rhyddhau i incwm dros gyfnod defnyddioldeb disgwyliedig yr offer.
- 4.4 Diffinnir trwyddedau fel asedau anghyffwrdd ac maent yn cael eu datgan yn ôl y gost, ac yn dibrisio dros gyfnod y drwydded. Mae costau trwyddedau a gyfalafwyd yn destun arolygiadau lleihau gwerth yn rheolaidd, ac maent yn cael eu datgan yn ôl y gost, wedi tynnu unrhyw golledion cronedig os yw eu gwerth wedi lleihau.

5 Asedau Treftadaeth

- 5.1 Paentiadau, gweithiau celfyddydol a darnau o waith seramig ym meddiant y Brifysgol yw asedau treftadaeth. Maent yn cael eu dal a'u cynnal oherwydd eu cyfraniad at wybodaeth a diwylliant yn bennaf. Mae'r eitemau hynny y pennwyd eu gwerth dros £10,000 wedi'u cyfalafu a'u cydnabod yn ôl y gost neu eu gwerth caffael, lle y bo modd cael amcan rhesymol o'r gost neu'r gwerth. Nid yw asedau treftadaeth yn cael eu dibrisio gan fod eu bywyd economaidd hir a'u gwerth gweddilliol uchel yn golygu na fyddai sylwedd i unrhyw ddibrisio o'r fath.
- 5.2 Mae unrhyw gostau sy'n codi o waith adfer neu gadwriaethol i'r asedau hyn yn cael eu cynnwys yn y Cyfrif Incwm a Gwariant yn y flwyddyn pan fo'r costau hynny'n codi.

6 Cynnal a Chadw Eiddo

- 6.1 Mae gan y Brifysgol gynllun cynnal a chadw parhaus sy'n cael ei adolygu bob blwyddyn. Telir y costau am waith cynnal a chadw arferol o'r Cyfrif Incwm a Gwariant.

DATGANIAD AM Y PRIF BOLISIŪAU CYFRIFEG (parhad)

7 Stoc

- 7.1 Ac eithrio'r Ffermydd, nodir stoc yn ôl cost, neu eu pris net wrth eu gwerthu, pa un bynnag yw'r isaf. Cynhwysir stoc y ffermydd ar werth y farchnad yn ôl prisiad proffesiynol. Ni chynhwysir stoc sydd yn nwylo adrannau dysgu a gwasanaethu ac eithrio Storfeydd Cynnal a Chadw ac Argraffu.

8 Buddsoddiadau

- 8.1 Mae Buddsoddiadau Asedau Sefydlog wedi eu cynnwys yn y datganiadau ariannol yn ôl eu cost, ar ôl cynnwys unrhyw ddarpariaeth a wneir am golli gwerth.
- 8.2 Mae Buddsoddiadau Asedau Gwaddol wedi eu cynnwys yn y datganiadau ariannol yn ôl eu gwerth ar y farchnad. Ailbrisiwyd Eiddo Asedau Gwaddol ar 31 Gorffennaf 1994 ar sail gwerth adnewyddu ar ôl dibrisiant.

9 Treth

- 9.1 Mae'r Brifysgol yn elusen a gofrestrwyd yn unol â Deddf Elusennau 2006 (Deddf Elusennau 2011 erbyn hyn). Am hynny mae modd esgusodi'r Brifysgol rhag talu treth ar incwm, ac enillion cyfalaf a gafwyd o fewn y categorïau a geir yn adrannau 478-488 o Ddeddf Treth Gorfforaethol 2010 (a ddeddfwyd gynt yn adran 505 o Ddeddf Trethi Incwm a Chorfforaeth 1988), neu adran 256 o Ddeddf Trethu Enillion Taladwy 1992 i'r graddau bod yr incwm neu'r enillion dan sylw wedi eu defnyddio i bwrpas cwbl elusennol.
- 9.2 Mae pob is-gwmni yn talu Treth Gorfforaethol a Threth ar Werth yn union fel unrhyw gorff masnachol arall.
- 9.3 Mae prif gylchoedd gweithredu'r Brifysgol yn cael eu hesgusodi rhag Treth ar Werth, ond mae rhai cyflenwadau a gwasanaethau ategol yn talu Treth ar Werth ar wahanol gyfraddau, mae Gwariant yn cynnwys Treth ar Werth anadferadwy a godwyd gan gyflenwyr i'r Brifysgol.
- 9.4 Mae darpariaeth yn cael ei gwneud am dreth ohiriedig ar gyfer is-gwmnïau drwy'r dull rhwymedigaethau.
- 9.5 Gwneir darpariaeth ar gyfer treth ohiriedig yr is-gwmnïau drwy'r dull rhwymedigaeth.

10 Trefniadau Pensiynau

- 10.1 Mae'r Brifysgol yn cymryd rhan mewn pedwar Cynllun Pensiwn ar wahân: Cynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS), Cronfa Bensiynau Dyfed, Cynllun Pensiwn ac Aswariant Prifysgol Aberystwyth (CPAPA) a Chynllun Pensiwn Prifysgol Aberystwyth. Mae'r tri chynllun olaf yn darparu buddiannau i'r aelodau o'r staff nad oes hawl ganddynt i ymaelodi â'r USS. Mae cynlluniau'r USS, Cronfa Bensiynau Dyfed a CPAPA yn rhai â buddiannau diffiniedig, wedi eu contractio allan o'r Ail Bensiwn Gwladwriaethol. Pennir gwerth y gronfa bob tair blynedd gan actiwariaid annibynnol sydd â chymwysterau proffesiynol yn y maes, a'r ymddiriedolwyr sydd yn pennu faint o gyfraniad i'w dalu, yn ôl cyngor yr actiwariaid. Mae'r actiwariaid hyn yn adolygu cynnydd y Cynlluniau yn y blynyddoedd eraill. Asesir costau'r pensiynau yn unol â barn yr actiwariaid yn seiliedig ar y prisiadau actiwaraidd diweddaraf ar y Cynlluniau.
- 10.2 O 1 Ebrill 2015, caewyd CPAPA i aelodau newydd a daethpwyd i ben â chroniadau buddiannau yn y dyfodol; sefydlwyd cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig newydd, sef Cynllun Pensiwn Prifysgol Aberystwyth.
- 10.3 Delir asedau'r USS mewn cronfa ar wahân a weinyddir gan ei ymddiriedolwyr. Oherwydd natur gydfuddiannol y cynllun, nid yw asedau'r Cynllun yn cael eu neilltuo i sefydliadau penodol ac mae cyfradd y cyfraniadau yn cael eu gosod i'r Cynllun cyfan. Felly mae'r sefydliadau yn agored i risgiau actiwaraidd sy'n gysylltiedig â staff sefydliadau eraill ac ni all y Brifysgol wybod beth yw ei chyfran hi o asedau a rhwymedigaethau gwaelodol Cynllun Pensiwn y Prifysgolion ar sail gyson a rhesymol ac felly, yn unol â gofynion Safon Adroddiadau Ariannol 17 "Buddiannau Ymddeol", mae'n rhoi cyfrif am y cynllun fel petai'n gynllun cyfraniadau diffiniedig. O ganlyniad mae'r meintiau a dalwyd o'r cyfrif incwm a gwariant yn cynrychioli'r cyfraniadau sy'n daladwy i'r cynllun yn ystod cyfnod y cyfrifon.
- 10.4 Mae'r Brifysgol wedi arddel Safon Adroddiadau Ariannol 17 "Buddiannau Ymddeol" yn gyfan gwbl o ran Cronfa Bensiynau Dyfed a Chynllun Pensiwn ac Aswariant Prifysgol Aberystwyth.

DATGANIAD AM Y PRIF BOLISIŌAU CYFRIFEG (parhad)

11 Darpariaethau a Rhwymedigaethau Amodol

- 11.1 Cydnabyddir darpariaethau yn y datganiadau ariannol pan fo gan y Brifysgol ymrwymiad cyfredol (yn gyfreithiol neu'n adeiladol) o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol. Y tebyg yw y bydd angen trosglwyddo buddiannau economaidd er mwyn bodloni'r ymrwymiad hwnnw ac fe ellir gwneud amcangyfrif dibynadwy am swm yr ymrwymiad.
- 11.2 Mae rhwymedigaethau amodol yn cael eu datgelu mewn nodyn, pan nad ydynt yn bodloni diffiniad darpariaeth, ac maent yn cynnwys tair sefyllfa: ymrwymiad posib yn hytrach nag un cyfredol; ei bod hi'n bosib yn hytrach na bod yn debyg y bydd buddiannau economaidd yn mynd allan; does dim modd mesur faint o fuddiannau economaidd fydd yn mynd allan.
- 11.3 Mae rhwymedigaeth amodol yn bodoli o ran y cynllun adfer prisiaid pensiynau, gan fod y cwmni yn gyflogwr i aelodau'r cynllun. Mae'r rhwymedigaeth amodol yn ymwneud â'r maint a gynhrychir gan wasanaeth a roddwyd yn y gorffennol gan yr aelodau presennol a chyfran y diffyg cysylltiedig. O gofio mai cynllun aml-gyflogwr yw'r cynllun, ac na all y cwmni wybod beth yw ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau gwaelodol, nid yw'r rhwymedigaeth amodol yn cael ei chydabod fel darpariaeth ar y fantolen. Yn yr un modd, ni chydabyddir ychwaith y maint cysylltiedig sydd i'w dderbyn er wyn ad-dalu gwariant y cwmni.

12 Llif Arian Parod ac Adnoddau Hylif

